

## **Ffordd Pererindod Penrhys Dinas i Benrhys**



**Cychwyn: Gorsaf Dinas Rhondda (cyfeiriad grid ST 0069119,  
côd post CF40 2PJ)**

**Diwedd: Cerflun Arglwyddes Penrhys (cyfeiriad grid ST 002946,  
côd post CF43 3PT)**

**Pellter: 2.5 milltir / 4cm**

1. Os ydych yn cychwyn o Orsaf Dinas, trowch i'r chwith i gyrraedd y bont. Ewch i fyny'r llwybr i'r dde o Westy Tŷ Lily Mia (gyferbyn â'r bont dros yr afon). Mae'r llwybr yn troi'n stepiau ac yn arwain i ffordd (Bryn Dinas View). Ewch yn syth yn eich blaen i briffordd.
2. Croeswch y briffordd (A4058, Heol Brithweunydd) ac ewch yn eich blaen lan y rhiw ar hyd Nile Road. Ar ôl rhyw 50 llath (45m) ewch heibio Park Stores ar y chwith, lle y dowch o hyd i stamp Dinas Rhondda which is the location for the Dinas Rhondda stamp.
3. Yn hytrach na mynd i fewn i'r parc cymerwch y lôn ar y dde (wedi ei nodi fel Garth Farm Private Road) a dilynwch hi i fyny o gwmpas y parc, gyda'r ffens werdd ar eich chwith.
4. Wrth y gyffordd, ewch yn syth i fyny'r grisiau ar lwybr cul iawn i'r chwith o fyncalaw Tyddwyn. Ewch dros y gamfa i gae ac ewch yn eich blaen lan y rhiw gyda'r wal ar eich chwith.
5. Ar dop y cae ar y chwith ewch dros gamfa a dilynwch y llwybr i'r dde o amgylch ymyl y cwrs golff. Yn fuan ar ôl mynd heibio i fast ar y dde, fe fyddwch yn cwrdd â llwybr lletach. Mae'r dringo nawr i gyd y tu ôl i chi!
6. Ewch i'r chwith i lwybr hen ffordd y plwy. Ar y dde fe welwch hen domen slag Old Smokey ger Tylorstown. Mae'n cael ei alw hefyd yn Dip Llanwonno neu dip Tylorstown.
7. Ar ôl i chi ddilyn y llwybr ar hyd y grib am rhyw 700 llath (650m) – mae e yn ymyl cwrs golf, felly cadwch olwg ar beli yn hedfan o gwmpas! – byddwch yn mynd heibio i bwynt triongl ar y dde. Mae hwn yn dangos eich bod 357 llath (327m) uwchben lefel y môr. Mae golygfeydd gwych i'r chwith, yn edrych dros Llwynypia a thu hwnt, ac yn ôl tuag at Dinas a'r llwybr 'rych chi wedi dod ar ei hyd. Yn union wedi mynd heibio i dy Clwb Golff Rhondda, fe basiwch fyncalaw. Mae hwn ar safle hen ysbyty Heintiau Penrhys, oedd yn ysbyty i drin y Frech Wen. Cafodd ei hadeiladu yn 1906.
8. Yn y pellter gallwch weld Penrhys, gyda cherflun y Forwyn Fair yn y blaen. Gyda sbienddrych mae'n bosib i chi weld top y ffynnon sanctaidd 'chydig i lawr i'r chwith. Ar ôl rhyw filltir (1.6cm) mae'r llwybr yn fforchio. Ewch i'r dde, ar hyd y llwybr porfa i gyrraedd y cerflun.

9. I fynd i'r ffynnon – Ffynnon Fair – ewch lawr o'r cerflun, heibio amffitheatr sydd mewn hanner cylch ac wedi ei cherfio i ochr y llethr. Pan ddowch i ffordd, croeswch hi, a dilynwch y llwybr (sy ag arwydd arni) i lawr tan i chi gyrraedd llwybr arall. Dilynwch hwn i'r ffynnon.
  
10. I fynd i fewn i stad Penrhys, lle mae na siop, a siop bysgod a sglodion a chaffi cymuned yn Eglwys Undebol Llanfair (sy' ddim ar agor bob dydd), croeswch y gylchfan ac ewch ar hyd y llwybr lan y rhiw ac fe gyrhaeddwch y cyfleusterau cymunedol ar y dde. Mae gwahoddiad i bob "pererin" i fynd i fewn i'r eglwys os ydi hi ar agor, i gael hoe fach. Pam gyrhaeddwch chi gerflun y Forwyn Fair ac edmygu'r golygfeydd, efallai y byddwch chi am fynd i'r toiled. Os gerddwch chi lan y rhiw i'r ystad fe ddowch chi o hyd i siop Woody's. Os ofynnwch chi yn y siop, fe fyddan' nhw yn cysylltu ag Eglwys Llanfair sy' ond rhyw dafliad carreg i ffwrdd, ac fe fydd rhywun yn agor cyfleusterau'r eglwys i chi.

Gyda diolch i Janet Sully a phawb sydd wedi cyfrannu at fapio'r daith.

23/08/2021